


Electrical Safety First

Arbenigwyr diogelwch trydan y DU

Canllawiau ar ddiogelwch trydan

Pa mor ddiogel yw eich cartref?



electricalsafetyfirst.org.uk

Cynnwys

1	Pwy yw Electrical Safety First?	4
2	Cyflwyniad	5
3	Pwy ddylai wneud gwaith trydanol yn fy eiddo?	6
4	Dod i adnabod eich system drydanol	7
5	Pa mor hen yw eich weirio?	8
6	Peryglon trydan o gwmpas y cartref	9
7	Peryglon amlwg ond mae pob un ohonom yn gwneud y camgymeriadau hyn	10
8	Diogelwch yn y gegin	12
9	Diogelwch yn yr ystafell ymolchi	13
10	Diogelwch yn yr ardd	14
11	Sefydliadau sy'n cofrestru trydanwyr sy'n gwneud gwaith gosod trydan domestig	16

1 Pwy yw Electrical Safety First?

Electrical Safety First yw'r elusen sy'n ymroi i leihau'r marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan ddamweiniau trydan yn y DU. Ein nod yw sicrhau y gall pawb yn y DU ddefnyddio trydan yn ddiogel.

Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol i helpu pobl i'w diogelu eu hunain rhag gosodiadau trydan ac offer trydan diffygiol, wedi difrodi, is-safonol, ac sydd heb eu cynnal yn dda.

Cawn ein cydnabod gan y llywodraeth a diwydiant fel yr elusen ymgyrchu a'r awdurdod technegol blaenllaw ar ddiogelwch trydan.

I gael mwy o gyngor ar ddiogelwch trydan, ewch i'n gwefan electricalsafetyfirst.org.uk

Electrical 
Safety First

2 Cyflwyniad


Mae trydan yn gallu lladd. Bob blwyddyn, mae tua 70 o bobl yn cael eu lladd a 350,000 yn cael anaf difrifol oherwydd damwain drydan yn y cartref.

Mae trydan yn achosi mwy nag 20,000 o danau bob blwyddyn – sef bron hanner yr holl danau tŷ damweiniol yn y DU.

Mae trydan yn rhan o'n bywydau. Rydym yn ei ddefnyddio o'r foment pan fyddwn yn dihuo a thrwy gydol y dydd. O ganlyniad, rydym weithiau'n anghofio pa mor bwerus a pheryglus mae'n gallu bod.

Mae'r oes fodern yn golygu ein bod yn defnyddio mwy a mwy o offer trydan yn y cartref. Ddim ond ugain mlynedd yn ôl, byddai gan y cartref cyffredin yn y DU system hi-fi ac un teledu neu fideo. Heddiw, mae'n fwy tebygol y bydd ynddo o leiaf dwy set deledu, chwaraewr DVD, derbynnydd lloeren, consol gemau, microdon, cyfrifiadur a mwy. Felly, mae'r perygl o ddamweiniau trydan yn y cartref yn uwch o lawer nag o'r blaen.

Bydd y llyfryn hwn yn rhoi cyngor syml ac effeithiol i chi i wneud eich cartref yn lle mwy diogel.



3 Pwy ddylai wneud gwaith trydanol yn fy eiddo

Er bod llawer o ddigwyddiadau'n cael eu hachosi gan offer diffygiol, gall gosodiad sydd wedi ei osod yn gywir a'i gynnal yn dda leihau'r posibilrwydd o ddamwain neu anaf yn sylweddol.

Felly, mae'n bwysig bod unrhyw waith gosod trydanol yn cael ei wneud gan bobl gymwys. Mae hyn yn golygu pobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i osgoi'r peryglon y gall trydan eu creu.

Mae'n hawdd gwneud i gylched drydanol weithio – mae gwneud iddi weithio'n ddiogel yn llawer mwy anodd.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn defnyddio trydanwr sydd wedi cofrestru gydag un o'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y llywodraeth i wneud y gwaith gosod trydanol sydd ei angen arnoch.

Mae trydanwyr cofrestredig yn gweithio yn unol â safon diogelwch BS 7671 y DU (Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydan). Byddant yn rhoi tystysgrif diogelwch am eu gwaith trydanol i gadarnhau bod y gosodiad wedi cael ei ddylunio, ei adeiladu, ei arolygu a'i brofi yn unol â'r safon hwnnw.

Mae gan bob un o'r gweithredwyr cynllun weithdrefn gwyno i ymchwilio i gwynion am drydanwyr cofrestredig sydd efallai heb gadw at y safon cenedlaethol hwn.

Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer gosodiadau trydan yng Nghymru a Lloegr yn wahanol i'r rhai yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n rhaid i drydanwyr sy'n gwneud gwaith gosod yng Nghymru a Lloegr gadw at y Rheoliadau Adeiladu, ac yn yr Alban, at y system Safonau Adeiladu. Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad cyfreithiol cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon.

Am fanylion darparwyr y cynlluniau sy'n cofrestru trydanwyr yn eich rhan chi o'r DU, ewch i dudalennau 15 ac 16 o'r daflen hon. Neu ewch i'n gwefan [electricalsafetyfirst.org.uk/findanelectrician](https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/findanelectrician)

4

Dod i adnabod eich system drydanol

Bydd rhai o'r rhain yn eich eiddo:

Prif switsh

Mae'r prif switsh yn y blwch ffiwsys yn gadael i chi ddiffodd y cyflenwad i'ch gosodiad trydan. Weithiau mae mwy nag un prif switsh. Er enghraifft, os mai gwresogyddion stôr trydan sy'n cynhesu eich cartref, efallai bydd gennych flwch ffiwsys ar wahân ar eu cyfer. Dylai fod yn hawdd ei gyrraedd, felly nodwch ble mae eich prif switsh fel y gallwch ddiffodd y trydan mewn argyfwng.

Ffiwsys

Yn aml, mae gan gartrefi hŷn ffiwsys y gellir eu hailweirio ac sy'n datgysylltu'r gylched yn awtomatig i atal perygl pan fod diffyg neu gerrynt gorlwytho'n mynd yn uwch na lefel ddiogel. Mae'r ffiws wedi toddi yn torri'r gylched ddiffygiol, gan ei diogelu rhag gorlwytho.

Torwyr cylchedau

Mae cartrefi mwy newydd yn debygol o gael torwyr cylchedau yn y blwch ffiwsys sy'n diffodd cylched os oes diffyg. Maen nhw'n debyg o ran eu maint i ddalwyr ffiwsys, ond maen nhw'n diogelu'n fwy cywir na ffiwsys.

Pan fyddan nhw'n 'tripio', gwaith hawdd yw ailosod y switsh. Ond yn gyntaf mae angen i chi ddod o hyd i'r diffyg a'i gywiro.

Dyfeisiau Cerrynt Gweddilliol (RCD)

Mae RCD yn ddyfais sy'n achub bywydau ac sydd wedi ei dylunio i'ch atal rhag cael sioc drydan anghueol os byddwch yn cyffwrdd â rhywbeth sy'n fyw, fel gwifren noeth. Mae'n rhoi lefel o ddiogelwch na all ffiwsys neu dorwyr cylchedau cyffredin ei rhoi.

Dan safon diogelwch y DU, mae'n rhaid i bron pob soced mewn gosodiadau trydan newydd ac unrhyw socedi newydd sy'n cael eu hychwanegu at osodiad presennol, gael eu diogelu gan RCD.

Os yw eich gosodiad trydan yn cynnwys un RCD neu fwy, dylech wirio eu bod yn gweithio'n iawn drwy wasgu'r botwm 'Profi' bob tri mis. Pan fyddwch yn profi'r RCD, dylai ddiffodd y pŵer i'r rhannau o'r cartref y mae'n eu diogelu.

Os gwasgwch y botwm ac NID yw eich RCD yn diffodd y cyflenwad trydan i'r cylchedau a ddiogelir, neu os nad yw'r botwm yn ailosod, gofynnwch am gyngor gan drydanwr cofrestredig.

5 Pa mor hen yw eich weirio?

Fel arfer, allan o olwg, allan o feddwl yw hi gyda thrydan oherwydd bod y ceblau wedi eu cuddio'n gyfleus y tu mewn i waliau, switshis a socedi. Felly does dim rhyfedd ein bod yn anghofio gwirio gosodiadau trydan am ôl traul.

Mae weirio hen a diffygiol yn un o brif achosion tanau trydan yn y cartref. Gallwch eich diogelu eich hun drwy drefnu gwiriadau rheolaidd ar gyflwr eich ceblau, switshis, socedi ac ategolion eraill.


Mae arwyddion clir a all eich helpu i ddweud faint yw oed y gosodiad trydan yn eich cartref. Cedwch lygad am:

- Geblau wedi eu cotio â rwber du, plwm neu ffabrig.
- Blwch ffiwsys gyda chefn pren, switshis haearn bwrw neu gymysgedd anniben o flychau ffiwsys.
- Hen socedi pinnau crwn a switshis golau crwn, fflecs pleth yn hongian ar rosynnau nenfwd, switshis brown a du, a socedi wedi eu gosod mewn byrddau sgyrtin.
- Switshis golau ar y wal mewn ystafelloedd ymolchi.

Mae'r rhain yn awgrymu bod eich gosodiad dros 40 mlwydd oed ac y gallai fod angen ailweirio. Cysylltwch â thrydanwr cofrestredig i gael adroddiad ar gyflwr eich gosodiad.

Ni waeth faint yw oed eich eiddo a'i osodiadau trydan, byddant yn dirywio gydag amser. Dylech gael trydanwr cofrestredig i wirio eich weirio bob 10 mlynedd o leiaf, neu os ydych yn symud i eiddo newydd.

Ydych chi'n gwybod pryd gafodd eich system drydanol ei gwirio ddiwethaf?



6 Peryglon trydan o gumpas y cartref

Mae trydan yn gwella ein bywydau bob dydd - ond dim ond pan gaiff ei ddefnyddio'n ddiogel. Peidiwch â chreu peryglon drwy orlwytho socedi a pheidiwch fyth ag anwybyddu arwyddion rhybudd fel arogl llosgi, mwmian neu glecian, ffiwsys yn chwythu neu dorwyr cylchedau'n tripio.

Mae damweiniau trydan yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan fod offer wedi cael eu difrodi neu eu camddefnyddio. Gallai peidio â chywiro'r broblem gael effeithiau dinistriol. Gallech feddwl bod hyn yn synnwyr cyffredin, ond byddech yn rhyfeddu faint ohonom ni sy'n peidio â dilyn canllawiau diogelwch sylfaenol.

Pryd wnaethoch chi wirio cyflwr a diogelwch eich plygiau, socedi a cheblau hyblyg? Os ydyn nhw wedi difrodi, gallant achosi siociau trydan, llosgiadau a thanau.

Mae'r holl offer modern yn y DU yn defnyddio'r plwg pinnau sgwâr 13 amp cyfarwydd.

Gall plygiau a cheblau gael eu difrodi, yn enwedig os ydynt wedi eu cysylltu ag offer llaw. Tynnwch y plwg o'r soced a gwiriwch y cebl o'r un pen i'r llall a gofynnwch y cwestiynau hyn:

- Ydy e' wedi ei gysylltu'n sOWNd wrth yr offeryn a'r plwg?
- Ydy e' wedi torri, wedi treulio neu ei ddifrodi mewn unrhyw ffordd?

O ddewis, ni ddylai fod unrhyw uniadau yn y cebl, ac yn bendant dim gwaith trwsio gyda thâp inswleiddio.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- Gwiro'r plwg a'r soced am farciau llosgi, synau 'arcio' (mwmian neu glecian), ffiwsys yn chwythu, torwyr cylchedau'n tripio neu'n gorboethi.
- Tynnwch blygiau o socedi yn ofalus. Mae tynnu plwg allan wrth y cebl yn rhoi straen arno a gallai ddifrodi'r cysylltiad rhwng y plwg a'r soced. Gallai hyn wneud i'r plwg orboethi, i'r gwifrau ddoed yn rhydd neu i sioc drydan ddigwydd (os yw'r ddaear yn cael ei datgysylltu).
- Defnyddiwch blygiau sydd â'r marc diogelwch Safon Prydeinig. Mae ganddyn nhw binnau byw a niwtral mewn llewys inswleiddio sy'n caniatáu i chi eu rhoi i mewn i socedi a'u tynnu allan yn ddiogel.
- Gwiriwch fod gwain y cebl wedi ei chlampo'n sOWNd yn y plwg ac nad oes gwifrau lliw yn y golwg. Dylech newid ceblau sydd wedi cael eu difrodi ar unwaith bob amser. Gallai cyffwrdd â gwifrau byw noeth roi sioc drydan i chi neu gallech gael eich lladd hyd yn oed.

7

Peryglon amlwg

ond mae pob un ohonom yn gwneud y camgymeriadau hyn

Trwsio offeryn pan ei fod wedi ei blygio i mewn

Dylech ddatgysylltu plwg eich offeryn bob tro cyn ceisio gwneud unrhyw waith cynnal. Rydych mewn perygl o gael anaf drwy sioc drydan, llosgiadau a symudiad mecanyddol os ewch ati i wneud gwaith trwsio neu gynnal cyn datgysylltu'r offer a gadael iddyn nhw oeri.

Llusgo ceblau dan garped neu fat i'w cadw allan o'r ffordd

Ynghyd â bod yn berygl baglu, gall ceblau hyblyg dan garpedi, matiau neu ar draws manau cerdded fod yn berygl tân.

Sychu dillad ar wresogydd trydan

Mae hyn yn arbennig o beryglus a gallai achosi sioc drydan neu dân. Mae gan lawer o offer trydan, fel gwresogyddion, agennau awyru i atal gorboethi. Os yw'r agennau hyn yn cael eu gorchuddio, gallai'r offeryn orboethi a mynd ar dân. Os oes dŵr yn diferu i mewn iddynt, mae perygl o sioc drydan.

Gosod sbotoleuadau

Gall dewis y sbotoleuadau anghywir, eu gosod yn anghywir, neu ffitio'r lamp newydd anghywir ynddynt achosi perygl tân difrifol yn eich cartref. Y peth gorau yw defnyddio trydanwr cofrestredig i osod eich sbotoleuadau ac yna cadw'r cyfarwyddiadau fel y gallwch gyfeirio atynt pan fydd angen newid y lampau.

Dylech wirio am farciau gweladwy ar sbotoleuadau sy'n dangos watedd a math y lampau.

Dylech hefyd wirio'r sbotoleuadau a'r manau o'u cwmpas am arwyddion o orboethi fel labeli wedi cyrlio ac afliwio neu wedi rhuddo.

Storio deunyddiau llosgadwy yn agos i offer trydan

Peidiwch â storio deunyddiau llosgadwy (dillad, papurau, deunyddiau glanhau ac ati) yn agos i'ch ffiws datgysylltu, mesurydd trydan neu flwch ffiwsys, yn enwedig os yw'r rhain dan y grisiau (y modd o ddianc o'r llawr uchaf mewn argyfwng). Cafwyd nifer o danau difrifol mewn cartrefi oherwydd bod diffyg yn yr offer trydan hyn wedi rhoi deunyddiau wedi'u storio gerllaw ar dân. Fel arall, byddai eu heffeithiau wedi cael eu cyfyngu.

Hongian lluniau a gosod silffoedd

Peidiwch â drilio tyllau neu fwrw hoelion i waliau neu barwydydd os nad ydych yn gwybod beth sydd ynghudd y tu ôl iddynt. Maen nhw'n cuddio ceblau trydan a pheipiau nwy a dŵr. Mae drilio drwy gebl byw yn beryglus iawn a gallai achosi sioc drydan, llosgiadau neu hyd yn oed tân.

Bydd synhwyrdd ceblau a metel yn eich helpu i ddod o hyd i unrhyw geblau a pheipiau metel.

Mewn gosodiadau trydan modern, mae ceblau fel arfer yn rhedeg mewn llinell syth, naill ai'n llorweddol neu'n fertigol, at ategolyn fel switsh neu soced. Gallai ceblau hefyd redeg o fewn 15cm o frig y wal neu'r pared neu o fewn 15cm oddi wrth ongl a ffurfir gan ddwy wal/dau bared.

Faint ydych chi'n dibynnu ar addasyddion a cheblau estyn o gwmpas eich cartref?

Gallwch ddisgwyl gweld tua phedwar soced mewn ystafell gyffredin mewn eiddo. Er y dylai hyn fod yn ddigon i bron bob pwrpas, mae'r cynnydd yn y defnydd o gyfrifiaduron, consolau gemau ac offer eraill wedi arwain at gynnydd yn nifer y socedi sydd eu hangen.

Gall lidiau estyn ac addasyddion fod yn ateb cyflym a hawdd ond, mewn gwirionedd, maen nhw'n cael eu camddefnyddio'n aml a gallant greu perygl go iawn. Mewn achosion eithafol gallant orboethi ac achosi tân.

Ydych chi'n gorlwytho'r socedi yn eich cartref chi?

Defnyddiwch ein cyfrifiannell ar-lein i gael yr ateb: [electricalsafetyfirst.org.uk/overloadingsockets](https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/overloadingsockets)

Bydd ein app ffôn smart am ddim, sydd ar gael ar iPhone ac Android, yn eich helpu i gynnal gwiriadau gweledol syml ar yr offer trydan yn eich cartref. Am fwy o wybodaeth, ewch i [electricalsafetyfirst.org.uk/visualchecks](https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/visualchecks)

Peidiwch â

- Defnyddio addasyddion sydd wedi eu plygio i mewn i addasyddion eraill.
- Gorlwytho addasyddion, yn enwedig gydag offer cerrynt uchel fel tegelli, heyrn a gwresogyddion. (Mae offer cerrynt isel yn cynnwys setiau radio, setiau teledu, cyfrifiaduron ac offer hi-fi.)
- Phrynu addasyddion rhad, is-safonol.

Y peth gorau yw cael trydanwr cofrestredig i osod socedi ychwanegol. Gofynnwch i'r trydanwr osod socedi dwbl yn hytrach na rhai sengl.

8 Diogelwch yn y gegin

Mae pob un ohonom yn gwybod bod dŵr a thrydan yn gyfuniad marwol. Felly mae'n bwysig bod offer trydan yn cael eu gosod yn gywir, a'ch bod yn eu defnyddio'n ofalus.

- I atal dŵr rhag dod i gysylltiad â thrydan, gwnewch yn siŵr bod eich socedi neu eich switshis wedi eu gosod ar bellter diogel (o leiaf 30cm yn llorweddol) oddi wrth y sinc.
- Os yw offer fel oergelloedd, peiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi wedi eu gosod dan wynebaw gweithio, gall fod yn anodd cyrraedd y socedi. Yn ddelfrydol, dylai'r offer hyn gael eu rheoli gan uned gysylltu ffiwsys â switsh sydd wedi ei gosod uwchben yr wyneb gweithio ble gallwch ei chyrraedd yn hawdd.
- Os yw soced yn y gegin neu yn unrhyw le arall yn y tŷ yn debygol o gael ei ddefnyddio i gyflenwi offer symudol y tu allan, dylai gael ei ddiogelu gan RCD.
- Cymerwch ofal arbennig wrth ddefnyddio offer trydan yn y gegin. Gall y cyfuniad o ddŵr, arwynebaw poeth, ceblau hyblyg a thrydan fod yn beryglus iawn. Gwiriwch fod lidiau hyblyg ac offer fel tegelli a thostwyr mewn cyflwr da.

Peidiwch â

- Defnyddio unrhyw offer trydan neu switshis pan fod eich dwylo'n wlyb.
- Rhwymo ceblau hyblyg o amgylch unrhyw offeryn pan ei fod yn dal yn gynnes.
- Glanhau neu geisio trwsio offeryn pan ei fod wedi ei blygio i mewn.
- Cheisio tynnu tost sydd wedi mynd yn sownd allan o dostiwr pan ei fod wedi ei blygio i mewn, ac yn enwedig gyda chyllell fetel, gan fod darnau byw y tu mewn iddo yn aml.
- Llenwi tegell neu haearn stêm pan eu bod wedi eu plygio i mewn

9 Diogelwch yn yr ystafell ymolchi

Mae dŵr yn cario trydan yn effeithlon. Pan fod y ddau yn cymysgu â'i gilydd, gall y canlyniad ladd. Oherwydd hyn, o safbwynt diogelwch trydan, gellid dweud mai'r ystafell ymolchi yw'r ystafell fwyaf peryglus yn y cartref.

Mae canlyniadau sioc drydan yn llawer mwy difrifol mewn ystafell ymolchi neu ystafell gawod gan fod croen gwlyb yn lleihau ymwrthedd y corff. Mae gofynion arbennig ar gyfer gosodiadau trydan mewn ystafelloedd ymolchi.

Peidiwch â dod ag offer cludadwy a bwerir gan y prif gyflenwad, fel sychwyr gwallt, gwresogyddion neu setiau radio i mewn i ystafell ymolchi. Gallech gael anaf difrifol neu eich lladd.

Socedi

Ni chaniateir socedi mewn ystafelloedd ymolchi neu ystafelloedd cawod (ar wahân i unedau cyflenwi eilliwr) oni bai y gellir eu gosod o leiaf tri metr oddi wrth y bath neu'r gawod.

Rhaid i unedau cyflenwi eilliwr fod ar bellter diogel oddi wrth y bath neu'r gawod i osgoi sblashis.

Goleuadau

Mae goleuadau nenfwd amgaeedig yn well na ffitiadau goleuo crog (sy'n hongian). Dylai pob ffitiad goleuo nad yw'n amgaeedig fod allan o gyrraedd unrhyw un sy'n defnyddio'r bath neu'r gawod, neu sy'n dal i fod yn wlyb ar ôl eu defnyddio.

Yr opsiwn mwyaf diogel ar gyfer ystafell ymolchi yw switsh tynnu cortyn ble mae'r cortyn wedi ei wneud o ddeunydd inswleiddio. Gall switshis golau cyffredin wedi eu gosod ar wal fod yn berygl posibl oherwydd lleithder a dwylo gwlyb.

Gwresogyddion a rheiliau tywelion

Mae gwres canolog yn ffordd dda o gadw ystafell ymolchi'n gynnes. Ond os oes gennych wresogydd ystafell trydan, rhaid iddo gael ei osod ar bellter diogel oddi wrth y bath neu'r gawod.

Rhaid i wresogyddion dŵr trydan a nwy mewn ystafell ymolchi fod yn sefydlog ac wedi eu gwifro'n barhaol, oni bai eu bod yn cael eu pweru gan soced sydd wedi ei osod tri metr oddi wrth fath neu gawod.

O ddewis, dylai gwresogyddion trydan gael eu rheoli gan gortyn tynnu neu switsh y tu allan i'r ystafell ymolchi.

Cawodydd

Rhaid bod gan gawod drydan ei chylched ei hun sy'n dod yn syth oddi wrth y blwch ffiwsys.

10 Diogelwch yn yr ardd

Er bod trydan yn gwneud garddio'n haws o lawer, mae cyflyrau gwlyb a chysylltiad â'r ddaear yn golygu bod y perygl o anaf neu farwolaeth drwy sioc drydan yn llawer uwch o gymharu â defnyddio offer trydan y tu mewn.

Mae llawer o ddamweiniau gardd yn digwydd oherwydd trafod offer yn ddiotal, diffyg canolbwytio, a pheidio â dilyn cyfarwyddiadau gweithredu'r gwneuthurwr. Trwy ddilyn canllawiau diogelwch syml bob tro y byddwch yn gweithio y tu allan, gallwch osgoi damwain ddifrifol yn hawdd.

Pan fyddwch yn defnyddio offer trydan y tu allan, gall eich diogelu eich hun gan RCD achub eich bywyd.

Hebdi, os torrwyd lid drydan, gallai tasg syml fel torri'r lawnt droi'n drychineb marwol. Mae RCD yn darparu lefel o ddiogelwch yn erbyn sioc drydan nad yw ffiwsys a thorwyr cylchedau normal yn gallu ei rhoi. Pan gânt eu defnyddio y tu allan, dylai pob offeryn fel torwyr gwair, tocwyr perthi ac offer pŵer eraill gael eu plygio i mewn i soced a ddiogelir gan RCD.

Os nad oes gennych socedi sydd wedi eu diogelu gan RCD, prynwch RCD gludadwy o ansawdd da o ffynhonnell gyfrifol.

Pa beth bynnag yw'r math o RCD sydd gennych yn eich cartref, dylech ei phrofi bob tri mis drwy ddefnyddio'r botwm 'Profi' ar y ddyfais. Dylech brofi RCDau symudol bob tro

y byddwch yn eu defnyddio.

Lidiau estyn, ceblau a chysylltiadau

Os nad ydych yn gwirio cyflwr lidiau estyn, ceblau a chysylltiadau ac nid ydych yn eu defnyddio'n gywir, gallech gael sioc drydan.

Gwnewch yn siŵr eu bod:


- Yn addas ar gyfer defnydd y tu allan – yn wrthdywydd, gyda chysylltiadau wedi eu mowldio sy'n atal lleithder rhag tryddiferu i mewn iddynt.
- Yn meddu ar y mesuriad cywir i gydweddu â'r offer a gysylltir.
- Wedi eu plygio i mewn yn iawn, yn enwedig cysylltwyr mewn-llinell.
- Wedi eu dad-dorchi i atal gorboethi.
- Yn cael eu cadw'n lân ac yn rhydd o ddifrod.
- Yn cael eu newid os gwelwch ddifrod arnynt.
- Yn cael eu gosod mewn man priodol i atal difrod.
- Yn cael eu cadw'n sych.

Torri'r lawnt a thori'r berth

Mae gan dorwyr gwair a thocwyr perthi lafnau miniog a darnau sy'n symud yn gyflym, a gall y rhain ddifrodi neu dorri ceblau trydan yr un mor hawdd ag y maent yn torri gwair. Mae'r perygl o gael sioc drydan gan gebl wedi ei ddifrodi yn uchel.

Gwnewch yn siŵr:

- Nad ydych yn torri'r gwair neu'r berth mewn cyflyrau gwlyb.
- Eich bod yn gwisgo esgidiau call i ddiogelu eich traed.
- Eich bod yn gwirio ceblau, cysylltiadau a phlygiau cyn i chi eu defnyddio.
- Eich bod yn cadw'r cebl draw oddi wrth y man torri.
- Eich bod yn datgysylltu plwg y torrwr gwair neu'r tociwr perthi ac aros nes i'r llafnau stopio symud cyn clirio rhwystrau neu wneud unrhyw waith cynnal.



11

Sefydliadau sy'n cofrestru trydanwyr sy'n gwneud gwaith gosod trydanol domestig

Cymru a Lloegr

Mae'r sefydliadau canlynol wedi eu hawdurdodi gan y Llywodraeth i gofrestru trydanwyr fel y gallant wneud gwaith gosod trydanol domestig sy'n cydymffurfio â Rhan P o'r Rheoliadau Adeiladu.

EC Certification Ltd

enw masnachu: Elecsa

Ffôn 0845 634 9043

elecsa.co.uk

NAPIT Registration Ltd

Ffôn 0870 444 1392

napit.org.uk

NICEIC

Ffôn 0870 013 0382

niceic.com

Benchmark Certification Ltd

enw masnachu: aelodaeth CORGI

Ffôn 0845 038 0022

corgiservices.com

Sefydliad Safonau Prydain (BSI)

Ffôn 0845 080 9000

kitemark.com

Gosodiadau trydan domestig cyfyngedig

Yn ogystal â'r rhai a nodir uchod, mae yna weithredwyr cynlluniau eraill a gymeradwywyd gan y llywodraeth sy'n cofrestru gosodwyr sy'n gwneud gwaith trydanol. Mae hyn yn gyfyngedig i waith gosod trydanol penodol mewn cysylltiad â gwaith anhrydanol arall.

Dangosir enghreifftiau o'r gwaith hwn a'r math o osodiadau sy'n syrthio o fewn y categori hwn isod.

- Plymio.
- Gwresogi â thanwydd solet.
- Ceginau.
- Ystafelloedd gwydr.
- Ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd gwely.
- CCTV.
- Gwyntyllau echdynnu.
- Systemau diogelwch.
- Gosodiadau gardd.
- Gwresogi â nwy.
- Gwaith cynnal a chadw.
- Addasu'r atig.
- Aerdymheru.
- Telathrebu.
- Pyllau nofio.
- Gwresogi ag olew.
- Cadeiriau esgyn.
- Estyniadau.
- Baddon sba.
- Mynediad ar ffurf drysau a gatiau.

OFTEC Ltd

Ffôn 0845 658 5080

oftec.co.uk

Cymdeithas Contractwyr Plymio a Gwresogi

Ffôn 0121 711 5030

aphc.co.uk

Yr Alban

Mae'r sefydliadau hyn wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth yr Alban i gofrestru trydanwyr i wneud gwaith gosod trydanol domestig sy'n cydymffurfio â'r system Safonau Adeiladu.

NICEIC

Ffôn 0870 013 0382

niceic.com

SELECT

Ffôn 0131 445 5577

select.org.uk

Gogledd Iwerddon

Ar hyn o bryd nid oes gofynion cyfreithiol ar gyfer gwaith gosod trydanol domestig yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau hyn yn cofrestru trydanwyr a ddylai fod yn gymwys i wneud y math hwn o waith.

ECA

Ffôn 020 7313 4800

eca.co.uk

NAPIT Registration Ltd

Ffôn 0870 444 1392

napit.org.uk

NICEIC

Ffôn 0870 013 0382

niceic.com

Nodiadau



Dysgwch fwy

Am fwy o wybodaeth ynghylch
diogelwch trydan ewch i:

electricalsafetyfirst.org.uk

**Electrical
Safety First** 

Electrical Safety First yw'r elusen sy'n
ymroi i leihau'r marwolaethau a'r
anafadau a achosir gan ddamweiniau
trydan yn y DU. Ein nod yw sicrhau y
gall pawb yn y DU ddefnyddio trydan yn
ddiogel.

electricalsafetyfirst.org.uk

© Electrical Safety First, 2017

Electrical Safety First
45 Great Guildford Street
Llundain SE1 0ES

Llinell Gymorth **020 3463 5100**
E-bost enquiries@electricalsafetyfirst.org.uk

Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr) Rhif 257376
(Yr Alban) Rhif SC039990